

Hope-Siloh, Pontarddulaiswww.hopesiloh.tkhopesiloh@hotmail.co.uk

**Boed tangnefedd dros Ŵyl y Nadolig a Blwyddyn Newydd
llawn Bendithion i holl aelodau Hope-Siloh**

**Gwasanaeth Operation Christmas Child**

Daeth nifer fawr o aelodau a ffrindiau ynghyd ar fore Tachwedd 20 i wasanaeth arbennig 'Operation Christmas Child'. Cyflwynwyd hanes yr elusen gan ieuenctid y capel a chafodd y plant lleiaf hwyl yn dangos peth o gynnwys eu bocsys i'r gynulleidfa. Casglwyd 71 o focsys ynghyd â £180 ar gyfer hybu gwaith yr elusen. Bydd y bocsys yn mynd i Liberia. Gobeithiwn yn fawr y caiff nifer o blant llai ffodus na'n plant bach ni ychydig o bleser a hwyl y Nadolig hwn.

**Dathlu'r Cynhaef yn Hope-Siloh.**

Fore Sul Hydref 16 daeth nifer o aelodau'r capel ynghyd i'r festri fawr i ddathlu'r Cynhaef gan ddiolch am bob bendith a ddaw i'n rhan. Roedd y gwasanaeth o dan ofal Marie-Lynne. Y plant oedd yn gyfrifol am yr hanner cyntaf a chafwyd perfformiadau hyfryd gan unigolion a phartion.



Roedd ail hanner y gwasanaeth yng ngofal yr ieuenctid a chafwyd cyflwyniadau allan o 'Wasaneth y Gannwyll' a baratowyd gan y Parchedig Beti Wyn. Bu'r gwasanaeth yn un bendithol iawn a chyflwynwyd £150 i Lyfrau Llafar Cymru yr elusen yr oeddem yn cefnogi eleni. Wedi'r gwasanaeth aeth rhyw 50 ohonom i fwynhau cinio blasus iawn yn y Clwb Rygbi ym Mhontarddulais. Joio mas draw!!

Gwasanaethau'r Nadolig (o 18 Rhagfyr ymlaen)

Rhagfyr 18 Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r Ieuenctid

6.00 – Gwasanaeth Golau Cannwyll

Rhagfyr 25 9.00 Gwasanaeth Cymun Undebol Dydd Nadolig

Gweinidog: Y Parch. Llewelyn Picton Jones, B.Sc., M.Ed.
50 Heol Glanffrwd, Pontarddulais, Abertawe, SA4 8QE
01792 882889 Lpicjones@aol.com

Gair y Gweinidog – Tymor yr Adfent

Eleni, Dydd Sul 27 Tachwedd oedd Sul Cyntaf yr Adfent. I'r Cristion mae'r pedair wythnos cyn y Nadolig yn cael ei alw yn Dymor yr Adfent. Mae Cristnogion ymhob man yn paratoi eu hunain ar gyfer Dydd Nadolig. I Gristnogion mae tymor yr Adfent yn amser arbennig a sanctaidd iawn, amser sy'n arwain at enedigaeth Iesu Grist. Ystyr y gair 'adfent' yw dyfodiad. Pan mae rhywun arbennig yn dod i ymweld neu aros gyda ni, rydym fel arfer yn paratoi ar eu cyfer. Yn ystod yr Adfent mae Cristnogion yn paratoi eu hunain am ddyfodiad Iesu Grist - yr ymwelydd pwysicaf oll.

Felly, yn Nhymor yr Adfent mae Eglwys Iesu Grist yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, mae'n dathlu'r ffaith fod Duw wedi dod, wedi ymweld â'i fyd. Ac yn ail, mae'r Eglwys yn pwyntio bys heibio i ddyfodiad Duw yn Iesu Grist at Ei ddyfod yn niwedd amser i glymu ynghyd holl linyddau Ei fwriadau dwyfol.

Ond mae 'na ddyfodiad arall yn dod rhwng y dyfodiadau yma - dyfodiad sy'n perthyn i'r presennol - oherwydd bod Iesu yn aros i ddod yn awr i mewn i galonnau a bywydau pawb sy'n Ei wahodd i mewn i'w bywydau. Ydy, mae tymor yr Adfent yn gyfle i ni holi ein hunain am ein cyflwr ysbrydol.

Ydyn ni'n barod am y Nadolig, y gwir Nadolig? Ydyn ni'n barod am y Crist sy'n newid ein bywydau? Oherwydd dyna yw'r Nadolig. Yn achos y Nadolig cyntaf hwnnw, parod neu beidio, niwsans neu beidio, anghyfleus neu beidio, ni fu bywyd yr un o'r bobl a ddaeth i gysylltiad â Iesu, byth yr un peth wedi hynny.

Efallai ein bod wedi colli'r dyddiad postio olaf ond y mae amser o hyd i baratoi ar gyfer dyfodiad y Crist hwnnw, sy'n dymuno cael ei eni yng nghalon pob un ohonom er mwyn newid ein bywyd.

Felly Adfent yw'r tymor am baratoi - paratoi i ddeall gwir ystyr y Nadolig, paratoi i ofyn i'r Iesu i ddod i mewn i'n bywydau a pharatoi am y dydd pan fydd E'n dod eto i'r byd.

*Wele wrth y drws yn curo,
Iesu, tegwch nef a llawr;
clyw ei lais ac agor iddo,
paid ag oedi funud awr;
agor iddo,
mae ei ruddiau fel y wawr.
Ieuan o Leyn*

Trefn Gwasanaethau (9:45am)

Ionawr 1	Gweinidog (Cymun)
Ionawr 8	Parchg Hywel Wyn Richards
Ionawr 15	Gweinidog
Ionawr 22	11.00 – Aelodau (Cinio i ddilyn)
Ionawr 29	Dr Christian Williams
Chwefror 5	Gweinidog (Cymun)
Chwefror 12	Gweinidog
Chwefror 19	Parchg Emyr Gwyn Evans
Chwefror 26	Oedfa Gŵyl Ddewi
Mawrth 5	Gweinidog (Cymun)
Mawrth 12	Gweinidog /Aelodau
Mawrth 19	Gweinidog
Mawrth 26	Mr Brian Owen
Ebrill 2	Gweinidog (Cymun)
Ebrill 9	Gweinidog (Sul y Blodau)

Eglwys Cymraeg Pontarddulais a'r Cylch

2016

Rhagfyr 25 Cymun Undebol yn Hope-Siloh am 9.00

2017

Ionawr 8 Gwasanaeth Plygain yn Eglwys San Mihangel am 5.30

Ionawr 27 Gwasanaeth Wythnos Weddi am Undod Cristnogol

10.30-11.30 yn y Triniti. Disgled i ddilyn.

Chwefror 2 Gwasanaeth yn Libanus am 7.00

Mawrth 3 Gwasanaeth Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd

2.00 yn y Tabernacl

Ebrill 14 Gwasanaeth Dydd Gwener y Groglith

10.30 yn Hope-Siloh

Côr Plygain - Diolch i Iris am gymryd at baratoi'r Côr eleni eto ac fe gynhelir y Gwasanaeth Plygain yn Eglwys San Mihangel, Ionawr 8, 2016 am 5.30.

Adeiladau

Rydym yn ddiolchgar iawn i gwmni TRJ am gwblhau'r gwaith sylweddol ar wal blaen a chyntedd y capel. Bu'r broses yn hirach na'r disgwyl wrth i'r gweithwyr ganfod problemau annisgwyl, yn arbennig o ran trawstiau'n pydru. Mae fframiau ffenestri ochr y capel hefyd wedi cael sylw. Er i'r cwmni gwblhau'r hyn a elwir yn 'builder's clean' penderfynwyd gofyn i gwmni glanhau Petrina Evans, un o'n haelodau, i lanhau'r capel a'r festri fawr yn drwyadl mewn paratoad am y digwyddiadau niferus dros gyfnod y Nadolig. Bu hynny'n fodd i ni arbed y grŵp aelodau sy'n gwneud y gwaith sylweddol yma'n rheolaidd.

Mae TRJ wedi'n rhybuddio bod glaw mewn tywydd garw yn treiddio trwy ffenestri plwm blaen y capel. Cawsom gyngor gan gwmni arbenigol C G Toft, Abertawe, a bydd y diaconiaid yn ystyried y posibilïadau.

Yn anffodus, unwaith eto mae nifer o'r 'heating elements' yn y capel wedi methu, a bydd rhaid archebu a gosod rhai newydd.

Cip o'r Gorffennol

*"Bu 1893 yn flwyddyn lafurfawr yn ein hanes, yn neillduol gyda'r allanolion. Ni chawsom y fantais oreu, yn herwydd bod allan o'r Capel, i ymdaflu i ddyledswyddau ysbrydol bywyd crefyddol. Eto, cawsom weniadau Duw, ac unodd lawer a'r Eglwys, 24 drwy ddeheulaw cymdeithas yr un Cymmundeb, **collasom** drwy lythyrâu rai teilwng o'n plith. A bu **orfod** i ni er mawr gofid i **ddiarddel** yr ychydig na ymddygent yn addas i efengyl Crist, yn ein plith.....Yr ydym yn dechrau y flwyddyn hon gyda rhagolygon addawol iawn. Cawsom brofedigaeth lem, yn gyssylltiedig a **disgyblu** yr **afreolus** ar ei throthwy. Ond y mae "**methu dioddef y rhai drwg**," yn llinell brydferth, yn ngwynder cymeriad Eglwys Iesu Grist, er yn fore. Gobeithiwn, bellach, ein bod wedi dod i ochr oleu y cwmwl. Ac fod y **Canaanead** diweddaf o dy Arglwydd y lluoedd, wedi ei daflu allan."*

(Allan o Anerchiad Y Parchedig D. Lloyd Morgan yn Adroddiad Eglwys Hope 1893)

Newyddion

Dymuniadau gorau

Estynnwn ein dymuniadau gorau i aelodau a fu yn yr ysbyty yn ystod y misoedd diwethaf sef Mrs Vicky Jones, Mr Denzil John a Mr Michael Irons. Mae'n dda gallu dweud fod y tri wedi dod adref erbyn hyn. Cofiwn hefyd am Y Parchg Leslie Jones, cyn-weinidog Siloh sy yn Ysbyty Treforys ar hyn o bryd.

Dymunwn yn dda hefyd i'r holl aelodau sy'n dioddef o afiechyd neu'n gaeth i'w cartrefi, y rhai sy mewn gofid am wahanol rhesymau a'r rhai sydd mewn cartrefi preswyl.

Bydd yr holl aelodau hyn yn derbyn anrheg fach a cherdyn o gyfarchion yn enw'r capel. Trefnir hyn gan Gwenda Evans a Rhiannon Killa.

Marwolaethau

Yn ystod y mis diwethaf, rydym wedi colli aelod, sef Mr Givlyn Evans, o Heol Glanrafon. Un o blant Capel Newydd Yr Hendy oedd Givlyn ond fe ymaelododd yn Siloh ar ôl priodi Marion yn y pumdegau cynnar ac fe'i hetholwyd yn ddiagon yno yn 1980. Roedd gan Givlyn lais Bas/Bariton hyfryd a bu yn canu yng nghôr Glandulais a chantorion Pontarddulais ac fel unawdydd ar nifer o achlysuron. Roedd Givlyn yn ddyn cyfeillgar a serchus a fu'n ddiagon ffyddlon yn Siloh dros y blynyddoedd ond wedi methu mynychu'r oedfaon yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd afiechyd. Fel eglwys rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gydag Eryl a'r teulu yn ei galar a'u hiraeth.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo'n ddwys gyda Mrs Eirwen Richards a'r teulu. Mae Eirwen wedi colli ei brawd yng nghyfraith Mr Richard Davies (Dic Aberdare) yn ddiweddar.

A chydymdeimlwn yn ddwys gydag unrhyw aelod arall sy wedi colli perthnasau agos yn y misoedd diwethaf.

Bore Coffi - Cynhaliwyd bore coffi o dan nawdd pwyllgor lleol Cymorth Cristnogol yn yr Institiwt ddydd Gwener 28 Hydref ac fe godwyd y swm o £700. Yn ogystal codwyd y swm o £500 trwy werthiant cardiau Nadolig.

Y Dosbarth Beiblaidd

Esboniad y Parchg Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts – “Dehongli Meddwl Paul”, cyfrol yn seiliedig ar fywyd a dysgeidiaeth Paul, oedd maes trafod y dosbarth yn ystod tymor yr Hydref.

Cafwyd trafodaethau bywiog a gwerthfawr ac yn ôl yr arfer daeth y tymor i ben gyda chinio Nadolig yn y Bridge, Llangennech.

Bydd y dosbarth yn ail gychwyn ar 10 Ionawr

*“Hyfryd eiriau'r Iesu,
bywyd ynddynt sydd,
digon byth i'n harwain
i dragwyddol ddydd:
maent o hyd yn newydd,
maent yn llawn o'r nef;
sicrach na'r mynyddoedd
yw ei eiriau ef.”*

Octavio

Daeth yn amser i ni wneud ein taliad blynyddol i noddi Octavio am flwyddyn arall. Mae ein cyfraniad ni o £250 yn talu am addysg Octavio am y flwyddyn ac yn cynorthwyo i hyfforddi cymuned Chiocco yn Mozambique ynglŷn a thyfu bwyd a gofal iechyd. Ein Ffair Nadolig a chyfraniadau gan unigolion sy'n talu'r £250.

Cyfeillion

Cawsom brynhawn hynod ddifyr yng nghwmni Jennifer Clarke a'i ffrindiau, Pam a Deris. Fe wnaethon nhw ein tywys i Batagonia ac o gwmpas y Wladfa trwy air a llun. Daeth cynulleidfa dda i'r Festri Fawr i fwynhau clywed profiadau'r tair yn yr Ariannin. Wrth gwrs, roedd dishgled a theisen i ddilyn.

Y Plant a'r Ieuenctid

Clwb Babanod

Mae'r Clwb Babanod yn parhau i gwrdd gyda rhyw ugain o blant bach yn mynychu'n rheolaidd, a nifer o'r rhain hefyd yn mynychu'r Ysgol Sul. Cafwyd amser gwych ym mharti Nadolig y Clwb, gydag ymweliad pwysig oddi wrth Sion Corn!

Y Clwb Ieuenctid

Mae'r flwyddyn wedi bod yn un llawn gweithgareddau unwaith yn rhagor, a gan bod llawer yn brysur dros yr wythnosau ym mis Rhagfyr, penderfynon ni ddathlu a chael y parti Nadolig yn gynnar er mwyn i bawb fwynhau.

Roedd yn braf gweld cymaint o blant wedi dod i'r parti, ac roedd y noson yn llawn bwrlwm a sŵn! Er mwyn ymuno yn hwyl yr wyl, chwaraeon ni 'musical chairs' a 'pass the parcel' cyn cael gwledd o bizzas a sglodion. Roedd yr amser wedi hedfan ond roedd yn sicr yn uchafbwynt i holl weithgareddau'r clwb. Rydym yn diolch yn arbennig fel clwb i Derek Rees am ei waith drwy gydol y flwyddyn, ac wrth gwrs i Marie Lynne am ei gwaith di-flino. Rydym yn edrych ymlaen yn barod at y flwyddyn nesaf ac yn gobeithio cadw'r niferoedd sydd wedi bod yn dod dros yr wythnosau diwethaf.



Gweithgareddau MIC

Nos Wener 13 Ionawr – Noson gyffrous llawn hwyl ar gyfer pobl ifanc blynyddoedd 7 – 11 wedi ei threfnu gan Coleg y Bala mewn cyd weithrediad a MIC.

Lleoliad: Laser Station a'r Atom, Caerfyrddin

Amser: 5.45 – 9.30

Cystadlaethau Chwaraeon

Cynhelir cystadlaethau pêl droed a phêl rwyd ar gyfer Ysgolion Sul a Chlybiau Cristnogol ddydd Sadwrn 28 Ionawr, yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin

Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ar 8 Ionawr a'r Clwb Ieuenctid ar 15 Ionawr

Cymanfa Ganu Undebol Pontarddulais a'r Hendy

Mae Sul cyntaf mis Hydref yn ddiwrnod pwysig iawn yng nghalendr Eglwysi Undebol Pontarddulais a'r Hendy gan mai ar y diwrnod hwnnw y cynhelir ein Cymanfa Ganu yn flynyddol. Yr arweinydd gwadd eleni oedd Ryan Lee o Borth Tywyn. Mae Ryan yn adnabyddus fel arweinydd Côr Meibion Porth Tywyn a chyfarwyddwr cerdd Cwmni Opera Porth Tywyn. Eleni gan fod gwaith yn cael ei wneud ar adeilad Capel Hope-Siloh bu'n rhaid cynnal Cymanfa'r Ifanc yn Neuadd yr Ysgol Gyfun a Chymanfa'r Oedolion yng Nghapel Tabernacl Pontarddulais.

Braf oedd gweld neuadd yr ysgol yn llawn ar gyfer Cymanfa'r Ifanc yn y bore. Cefnogwyd y Gymanfa eleni eto gan Ysgolion Cynradd yr Hendy a Bryniago ac Ysgolion Cyfun y Strade a Gŵyr. Rydym fel eglwysi yn ymfalchio yn y bedair ysgol ac yn gwerhfawrogi yn fawr eu cefnogaeth a'u cyfraniad i'r Gymanfa. Plant yr ysgol Sul fu'n cyflwyno'r emynau a rhaid eu llongyfarch am safon eu cyflwyniadau. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol yn raenus iawn gan Tomos a Llŷr - plant Ysgol Sul Hope-Siloh a'r llywydd oedd Jennifer Clarke.

Roedd y Gymanfa yn llawn hwyl a'r ieuenctid wrth eu bodd yn canu'r emynau i gyfeiliant band teulu'r Tiplady sef Llŷr, Siôn a Rhys gyda Luned Mair ar yr allweddell ac Ian Lewis ar y piano.



Llywydd yr hwyr oedd Marie-Lynne Jones gydag Ian Lewis yn chwarae'r organ. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol yn ddefosiynol iawn gan y Parch Llewelyn Picton Jones. Cafwyd canu deallus, cerddorol a disgybledig gyda Ryan Lee yn lliwio'r cyfan yn fedrus. Cyflwynwyd eitem gan barti Lleisiau Lliw a diolch iddynt hwythau am gyfraniad gwerthfawr iawn. Eleni unwaith eto bu'r Gymanfa yn llwyddiant mawr ac fel arfer rydym yn ddiolchgar iawn i Eric Jones am ei waith caled a diflino yn hyfforddi mynychwyr yr Ysgol Gân yn ystod mis Medi. Edrychwn ymlaen at glywed detholiad o'r Gymanfa ar 'Caniadaeth y Cysegr' yn y dyfodol.

Cyngerdd Côr Llanddarog


Golygfa odidog oedd gweld y capel yn llawn dop ar gyfer cyngerdd Côr Llanddarog nos Sul cyntaf mis Rhagfyr. Cawsom wledd i'r glust hefyd. Cerddoriaeth Eric Jones yn unig a gyflwynwyd gan y Côr dan arweiniad medrus Meinir Richards, yr artistiaid swynol Ffion Haf, Mia Peace ac Elan Richards gyda'r talentog Caradog Williams yn cyfeilio. Cyflwynydd y cyngerdd oedd un arall o'n haelodau, y pâr saff o ddwylo, Garry Owen.

Fel y dywed ein Gweinidog yn rhaglen y cyngerdd, roedd hi'n briodol iawn ein bod wedi cynnal y cyngerdd arbennig hwn yng Nghapel Hope-Siloh gan mai'r capel hwn yw cartref ysbrydol Eric. Mae ei ddawn cerddorol fel cyfansoddwr yn adnabyddus i bawb ond fel cyd-aelod, diacon, ysgrifennydd ac organydd ffyddlon yma yn Hope-Siloh rydym ni fel aelodau yn ei adnabod.



Mae Cor Llanddarog newydd ryddhau cryno ddisg o gerddoriaeth Eric, yn ddarnau adnabyddus ac yn rhai newydd. Canwyd rhai o'r eitemau hyn gan y côr yn y cyngerdd, yn ogystal ag unawdau a oedd hefyd yn gynnyrch Eric. Roedd y canu drwyddi draw o'r safon uchaf a chlywyd sylwadau megis gwefreiddiol, bythgofiadwy, gwych ac arbennig iawn gyda'r gymeradwyaeth yn hir a byddarol. Daeth pobl o bell ac agos i'r cyngerdd, rhai wedi teithio o'r Gogledd, o Sir Benfro ac o Gaerdydd.

Mae copiau o'r CD ar gael trwy'r capel.



Nadolig Hope-Siloh

Mae'n taflen sy'n rhestru digwyddiadau'r Nadolig yn dangos prysurdeb yr Eglwys dros dymor yr Adfent, ynghyd â'r gwasanaethau arbennig. Ceisiwch gefnogi, - mae presenoldeb pob unigolyn yn bwysig ac rydym yn ffodus o gael y cyfle i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni'n gilydd.

Cartrefi Preswyl

Eleni eto, aeth criw bach o aelodau i gynnal gwasanaeth byr yng nghartrefi'r Hafan, Hollies Llys Gwyn a Llys y Tywysog. Cawn groeso cynnes yn y cartrefi hyn ac mae nifer o'r trigolion yn uno gyda ni i ganu carolau ac yn gwerthfawrogi addoli yn y Gymraeg.

Ffair Nadolig

Cafwyd cefnogaeth ragorol unwaith eto eleni i'n Ffair Nadolig. Roedd stondinau amrywiol, o botiau pert plant yr Ysgol Sul, gemwaith, tuniau a photeli i gynnyrch cartref gydag ôl oriau o waith celfydd arnynt yn waith gwnïo, peintio a choginio. Roedd dishgled o de neu goffi i bawb a chyfle i ddyfalu pwysau cacen Nadolig, enwi tedi neu ennill hamper. Codwyd y swm rhyfeddol o dros £1500! Diolch yn fawr iawn i aelodau a ffrindiau a fu'n cynorthwyo a chefnogi a chreu achlysur cymdeithasol, cymunedol yn ogystal â chodi arian.



O! Deuwch ac addolwn Grist o'r nef